

# Gweithiwr Cymdeithasol: Tîm ardal y Gogledd-ddwyrain

Salary: SCP 28 - 31 (£36,648 - £39,186)

Lleoliad: Tŷ Dewi Sant, Ewlo gan weithio ar draws Sir y Fflint a gweithio’n hybrid

Mae yna gyfle i Weithiwr Cymdeithasol weithio o fewn ein Timau Ardal Leol.Bydd deiliad y swydd yn gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol o Weithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Galluogi. Bydd deiliad y swydd yn cyflawni rôl allweddol drwy ymgymryd â llwyth achosion cymhleth gan sicrhau cyfranogiad llawn gan ddinasyddion a’u gofalwyr yn y broses o asesu a chynllunio gofal.
Hefyd, bydd deiliad y swydd yn gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol ac integredig gyda Chydweithwyr Iechyd. Bydd deiliad y swydd yn cyflawni rôl allweddol drwy ymgymryd â llwyth achosion cymhleth gan sicrhau cyfranogiad llawn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y broses o asesu a chynllunio gofal.
Mae gweithio mewn ardaloedd yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i adeiladu ar berthnasau cadarnhaol â chydweithwyr iechyd a'r sector gwirfoddol ac mewn cymunedau lleol. Mae timau Gwaith Cymdeithasol Sir y Fflint mewn Ysbytai yn cael mynediad at amryw o wasanaethau cynnal megis tîm Ailalluogi mewnol, tîm Adnoddau Cymunedol, Gofal Canolraddol ac ymyrraeth therapiwtig i unigolion.
Mae gan Sir y Fflint hanes blaenorol da o gefnogi lles a datblygu gyrfaoedd eu gweithwyr trwy roi goruchwyliaeth unigol, reolaidd a chefnogol a chyfle i gael cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.
Mae hwn yn gyfle cadarnhaol i unigolion sy'n credu eu bod yn bodloni’r gofynion uchod ac yn ymrwymedig i ddatblygu gwaith yn lleol a grymuso pobl hŷn ar draws Sir y Fflint i gael lleisio eu barn a chadw eu hannibyniaeth.
Mae’n rhaid i ddeiliaid y swydd fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad gydag oedolion diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gyda channoedd o fanwerthwyr ledled y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd datblygu a llawer mwy.
I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag: Steve Wilson / Rheolwr Tim, Tîm ardal y Gogledd-ddwyrain / steve.j.wilson@flintshire.gov.uk

Gyda’n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL